north wales economic ambition board
bwrdd uchelgais economaidd gogledd cymru

**TAFLEN BENDERFYNIAD**
**Dydd Gwener, 18 Hydref 2019**

**Dyddiad y Penderfyniad:** Dydd Gwener, 18 Hydref 2019

---

**PWNC**

Eitem 5:DIWEDDARIAD AR RAGLEN WAITH Y BWRDD UCHELGAIS A LLEOLIAD I'R SWYDDFA RHAGLEN

---

**PENDERFYNIAD**

1. **Derbyn yr adroddiad ar y Rhaglen Waith yn amodol fod statws RAG pob tasg o fewn y Rhaglen Waith yn cael ei adolygu a'i ddiweddaru erbyn y cyfarfod nesaf, a gofyn i'r Grŵp Swyddogion Gweithredol ail-edrych ar ffurf y tabl pan fydd y Cyfarwyddwr Rhaglen mewn lle.**
2. **Cadarnhau y bwriad i ail-hysbysebu swydd Cadeirydd y Bwrdd Cyflawni Busnes.**
3. **Cymeradwyo'r Cynllun Trosiannol.**
4. **Awdurdodi'r Corff Atebol i ymrwymo i brydles ar swyddfa yng Nghanolfan Fusnes Conwy yn unol â'r adroddiad, a chytuno â thelerau eraill yn unol â chyngor Pennaeth Eiddo'r Corff Atebol, mewn ymgynghoriad â'r Swyddog Monitro a'r Swyddog Cyllid Statudol.**

---

**RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD**

Diweddaru ar gynnydd tasgau'r Rhaglen Waith a sicrhau bod cynnwys y tabl yn fwy eglur.
Adrodd ar y Cynllun Trosiannol fel dogfen gefnogol i'r Rhaglen Waith nes bydd y Cyfarwyddwr Rhaglen yn cychwyn y swydd.
Mae'r Bwrdd Uchelgais angen adnabod gofod swyddfa addas ar gyfer y Swyddfa Rhaglen

---

**DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL**

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol.

---

**UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD**

Ymgynghorwyd â'r Grŵp Gweithredol.
Ymgynghorwyd ag Adran Eiddo'r Corff Atebol ar y cynnig ar gyfer y gofod swyddfa yng Nghanolfan Fusnes Conwy.

---

Ymgynghorwyd â'r Swyddogion Statudol am eu barn, sydd wedi eu cynnwys yn yr adroddiad.

north wales economic ambition board
bwrdd uchelgais economaidd gogledd cymru

**TAFLEN BENDERFYNIAD**
**Dydd Gwener, 18 Hydref 2019**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y Penderfyniad:** | Dydd Gwener, 18 Hydref 2019 |

## PWNC

Eitem 6:CYLLIDEB REFENIW 2019-20 - ADRODDIAD AIL CHWARTER (MEDI 2019)

## PENDERFYNIAD

1. **Derbyn Adolygiad Ail Chwarter o gyllideb y Cyd-bwyllgor (Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru) ar gyfer 2019/20.**
2. **Derbyn cymeradwyaeth y Cyd-bwyllgor i'r trosglwyddiadau cyllideb a amlinellir yng ngholofn olaf Atodiad 1.**
3. **Nodi a derbyn y sefyllfa bresennol ar Gyllideb 2020/21.**

## RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD

Rhagamcanir llai o wariant ar gynllunio prosiectau (llai o waith wedi'i gymisiynu yn allanol a llai o gost cyflogi staff) na'r amcangyfrifon gwreiddiol, ond ymddengys bellach na fydd modd cyfalafu cyflogau yn 2019/20. Mae gwarant net canlynol y Bwrdd Uchelgais yn fforddiadwy o fewn cyfraniadau cyfredol y partneriaid, ond mae'n ddibynnol ar dderbyn arian grant ESF gan WEFO.

## DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol.

## UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD

Ymgynghorwyd â'r Grŵp Gweithredol.
Ymgynghorwyd â'r Swyddogion Statudol am eu barn, sydd wedi eu cynnwys yn yr adroddiad.

**TAFLEN BENDERFYNIAD**
**Dydd Gwener, 18 Hydref 2019**

**Dyddiad y Penderfyniad:** Dydd Gwener, 18 Hydref 2019

---

**PWNC**

Eitem 7:CEFNOGAETH FUSNES RANBARTHOL

---

**PENDERFYNIAD**

**Derbyn bod y gwaith paratoi yn parhau fel a amlinellwyd yn yr adroddiad, ond yn y cyfamser, anfon neges at Weinidog yr Economi a Thrafnidiaeth i ddatgan nad yw'r model a gynigir yn ateb gofynion y sector breifat yng Ngogledd Cymru.**

---

**RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD**

Mae'r gymuned fusnes yn dymuno gweld un corff cyflenwi ar gyfer Gogledd Cymru ac nid yw'r model a gynigir yn cyd-fynd â dyheadau busnesau'r rhanbarth.

---

**DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL**

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol.

---

**UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD**

Bu Cyngor Busnes Gogledd Cymru yn gweithio mewn ymgynghoriad dros sawl mis a digwyddiad gyda'i aelodau a busnesau unigol i ffurfio'r Prosiect Cronfa Twf Busnes Rhanbarthol.
Er mwyn datblygu elfen Rhwydwaith y prosiect, cynhaliwyd cyfres o gyfarfodydd gyda phartneriaid allweddol.
Ymgynghorwyd â busnesau lleol drwy ddigwyddiad a drefnwyd gan Gyngor Busnes Gogledd Cymru.
Cyflwynwyd yr adroddiad terfynol i gyfarfod Cyngor Busnes Gogledd Cymru.
Cyflwynwyd yr adroddiad i aelodau'r Bwrdd Cyflawni Busnes.
Ymgynghorwyd â'r Swyddogion Statudol am eu barn, sydd wedi eu cynnwys yn yr adroddiad.

---